**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 24 Hydref 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | C R Doyle | D W Helliwell |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins, Y V Jardine, L R Jones a/ac G J Tanner

---

**25 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**26 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 26 Medi 2018 fel cofnod cywir.

**27 Cyflwyniadau - Cynllun Cydraddoldeb Strategol.**

Rhoddodd Jo Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi, gyflwyniad ynghylch agweddau ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi.

Dyma'r manylion yn y cyflwyniad: -

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Nod y ddyletswydd;
- Nodweddion gwarchodedig;
- Dyletswydd benodol ar yr awdurdod lleol;
- Abertawe: Yn ymarferol beth mae hynny'n ei olygu;

- Agenda Tlodi a Chydraddoldebau

Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Cynnig gofal plant diweddar Llywodraeth Cymru sy'n gwneud gwahaniaeth i blant anabl â ffocws ar annog rhieni sy'n gweithio;
- Effaith y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2018;
- Trosglwyddo goblygiadau os bydd awdurdodau lleol yn defnyddio gwasanaethau allanol.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau;
2) Ymchwilio i/cadarnhau nifer y plant anabl sydd wedi elwa o'r cynnig gofal plant diweddar gan Lywodraeth Cymru.

**28 Benthyca llog uchel - Opsiynau Sydd Ar Gael. (I'w trafod)**

Cyfeiriodd y cadeirydd at y cyflwyniad a roddwyd gan Julie Mallinson, Undeb Credyd Celtic, yn ystod y cyfarfod diwethaf ac amlygodd yr opsiynau sydd ar gael er mwyn i'r awdurdod gefnogi pobl.

Nododd y Pennaeth Tlodi a'i Atal fod Undeb Credyd Celtic eisoes yn hysbysebu ar slipiau tâl staff ac mae hyn eisoes yn cael effaith. Nododd fod Undeb Credyd Celtic yn awyddus i gael mwy o waith yn Abertawe ac y byddai'n ddefnyddiol pe bai pob cynghorydd yn ymwybodol o'i wasanaethau.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- mae opsiynau ar gael i hysbysebu'r gwasanaethau a ddarperir gan Undeb Credyd Celtic yn ehangach megis slipiau tâl ar-lein, staffnet, rhwydweithio, gweithio mewn partneriaeth a Blog Phil;
- Yr effaith y mae rhai benthycwyr cost uchel yn ei chael ar unigolion;
- Yr effaith y mae rhai cwmnïau benthyca cost uchel yn ei chael ar unigolion a'r dulliau a ddefnyddir i magu hyder yn eu gwasanaethau;
- Y prif adegau benthyca sef mis Tachwedd a Rhagfyr, a'r gost i unigolion ym mis Ionawr ar ôl y Nadolig a'r angen i drosglwyddo'r neges ynghylch Undeb Credyd Celtic;
- Twyllwyr credyd a'r effaith maent yn ei chael ar unigolion;
- Hyrwyddo ffurfiau eraill o gredyd;
- Newid delwedd Undeb Credyd Celtic;
- Darparu mwy o gyfathrebu eang, e.e. The Wave, yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig.

**Penderfynwyd:** -

1) y bydd y Cadeirydd yn anfon llythyr at Aelodau’r Cabinet ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan Undeb Credyd Celtic;
2) y bydd y Pennaeth Tlodi a'i Atal yn ymchwilio i ddarparu cyfathrebu ychwanegol ynghylch Undeb Credyd Celtic cyn y Nadolig.

## 29 Rhoi'n Gall. (I'w drafod)

Rhoddodd y Pennaeth Tlodi a'i Atal gyflwyniad ynghylch y Cynllun Rhoi'n Gall. Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Taflen hysbysebu am y Cynllun Rhoi'n Gall;
- Siart Llif y Cynllun Rhoi'n Gall;
- Cynnydd - gan gynnwys cynllun peilot yng nghanol y ddinas am 6 mis a estynwyd ar draws yr awdurdod cyfan, gan gynnwys 40 o stondinau yng nghanol y ddinas a 6 o siopau yn ardal Uplands;
- Gosod blychau casglu a baneri bach mewn siopau;
- Beth sydd nesaf?
- Sut gall y cyngor helpu?

Trafodwyd y canlynol yn y cyfarfod: -

- MARAC;
- Mae BID yn ystyried pwyntiau digyffwrdd;
- Casgliad yn ystod gêm y Gweilch yn erbyn Stade Français;
- Newid y ffordd o wneud pethau;
- Cyfeirio'r gefnogaeth gywir at bobl cyn y Nadolig;
- Y daflen arfaethedig a fydd yn hysbysebu'r Cynllun Rhoi'n Gall a meddalu'r neges arfaethedig;
- Adnabod cardotwyr 'go iawn' a'u cynghori ar y bobl y gallant siarad â nhw;
- Sicrhau budd-daliadau i unigolion;
- Mewnbwn gan Crisis/Shelter.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Bydd y Pennaeth Tlodi a'i Atal yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor ynghylch y cyngor a ddarparwyd i bobl ddigartref gan Opsiynau Tai;
3) Gwneud diwygiadau i'r daflen arfaethedig am y Cynllun Rhoi'n Gall fel y trafodwyd.

## 30 Dinas Hawliau Dynol (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd Jo Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi, adroddiad 'er gwybodaeth' ar y gwaith a wneir gan Gyngor Efrog mewn perthynas ag ystyried a ddylai Dinas a Sir Abertawe fod yn Ddinas Hawliau Dynol.

Nododd y sefydliadau sy'n gweithio i hyrwyddo'r syniad o Ddinas Hawliau Dynol a rhoddodd enghreifftiau o Fforwm Hawliau Dynol y Byd, Wikipedia a Dinas Efrog Newydd. Ychwanegodd yr ariennir y gwaith a wneir gan Efrog yn bennaf gan Sefydliad Joseph Rowntree.

Trafododd y pwyllgor ddiwrnod y gweithdy i drafod Dinas Hawliau Dynol a drefnir ar gyfer 27 Tachwedd 2018 a nododd y gallai digwyddiadau gwrthdaro.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Ymchwilio i'r posibilrwydd o'r digwyddiadau'n gwrthdaro;
3) Trafodir dod o hyd i gyfleoedd cyllido ar gyfer Dinas Hawliau Dynol yn ystod trafodaeth y gweithdy a drefnir ar gyfer 27 Tachwedd 2018.

## 31 Cynllun Gwaith 2018-2019.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

Trafododd y pwyllgor eitemau sy'n perthyn i'r cyfarfod nesaf ar 28 Tachwedd 2018.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Rhoi adborth ar y Gweithdy Dinas Hawliau Dynol a gynhelir ar 27 Tachwedd 2018;
3) Rhoi diweddariad ynghylch y Cynllun Rhoi'n Gall;
4) Bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn egluro'r broses gymeradwyo mewn perthynas â llythyrau a anfonir gan y Cadeirydd ar ran y pwyllgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.40 pm

**Cadeirydd**